*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei argraffu i gywiro camgymeriadau yn O.S. 2020/44 (Cy. 5) ac mae'n cael ei ddyroddi'n rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 177 (Cy. 38)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Chwefror 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *26 Chwefror 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *20 Mawrth 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o'r Ddeddf honno mewn perthynas â'r meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 20 Mawrth 2020.

(**1**) 1972 p. 68. Mae Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") wedi ei diddymu gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael ("exit day"). Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ("IP completion day"), yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2008/1792, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12(4), yn lle'r geiriau o "ecinodermiaid" hyd at "awdurdod lleol" rhodder "ecinodermiaid byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw a chynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys cynhyrchion pysgodfeydd wedi eu prosesu a fwriedir i'w bwyta gan bobl, caiff yr awdurdod gorfodi".

(3) Yn rheoliad 20—

(a) ym mharagraff (7), hepgorer y geiriau o ", ond mae ganddo'r hawl" hyd at y diwedd;

(b) hepgorer paragraff (8).

(4) Yn rheoliad 23(6), hepgorer y geiriau o "ond mae ganddo'r hawl" hyd at y diwedd.

(5) Yn Atodlen 2, ym mharagaff 9(1), yn y testun Saesneg, ar ôl "purposes" mewnosoder "of".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

24 Chwefror 2020

(**3**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/44 (Cy. 5); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011").

Mae rheoliad 12(4) o Reoliadau 2011 wedi ei ddiwygio i egluro bod arolygwyr pysgod swyddogol yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â chynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys cynhyrchion pysgodfeydd wedi eu prosesu.

Mae rheoliadau 20(7) a 23(6) o Reoliadau 2011 yn ymwneud ag achosion pan fo'n ofynnol trin, ailanfon neu ddinistrio cynhyrchion ac anifeiliaid nad ydynt yn cydymffurfio. Mae'r darpariaethau hyn yn gwneud y mewnforiwr neu gynrychiolydd y mewnforiwr yn atebol am y costau yr eir iddynt ar gyfer unrhyw fesurau gorfodi a roddir ar waith yn dilyn methiant gwiriadau neu ymafaeliad nwyddau ac anifeiliaid sydd wedi eu mewnforio o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r diwygiadau i'r darpariaethau hyn yn sicrhau nad oes gan y mewnforiwr neu gynrychiolydd y mewnforiwr hawl i unrhyw daliad ar ôl eu dinistrio.

Mae rheoliad 20(8) o Reoliadau 2011 wedi ei hepgor, yng ngoleuni is-baragraff olaf Erthygl 66(3) o Reoliad (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1). Yn rhinwedd Erthygl 66(3), o dan amgylchiadau penodol mae gan y mewnforiwr neu gynrychiolydd y mewnforiwr hawl i gael ei glywed ynghylch gofyniad y bwriedir ei osod mewn perthynas â llwyth nad yw'n cydymffurfio.

Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2011 wedi ei diwygio i gywiro mân wall yn ei thestun.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.